**CYPE(5)-19-20 - Papur i'w nodi 1**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/2019/20

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne,

Pan oeddwn yn bresennol yn y pwyllgor ar 5 Mai 2020, cadarnheais fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i arwain adolygiad cyflym o farwolaethau annisgwyl ymhlith pobl ifanc yn ystod dechrau'r pandemig Covid-19 yng Nghymru o fis Ionawr i fis Mai 2020. Cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl i'r adroddiad ddod i law a phan fyddai cyfle i ystyried ei gasgliadau.

Er mwyn llywio adolygiad DU, cynhaliwyd adolygiad pellach o farwolaethau ymhlith plant (CDR) gan dîm y CDR a'r athro Ann John o Brifysgol Abertawe. Daeth hwn i'r casgliad bod ei ganfyddiadau o farwolaethau diweddar o dan 18 oed trwy hunanladdiad posibl yn 2020, yn debyg i'r rhai a nodwyd yn y *Adolygiad thematig Marwolaethau plant trwy hunanladdiad tebygol 2013-2017*.

Rhwng Ionawr 2020 a Mai 2020, nododd y CDR nifer bach o farwolaethau posibl o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc o dan 18 oed. Roedd y tîm adolygu'n credu bod yr ymarfer yn adlewyrchiad cywir o'r holl hunanladdiadau posibl a thebygol ymhlith pobl ifanc o dan 18 oed. Er bod y nifer gwirioneddol yn debyg i'r cyfanswm am gyfnod cyflawn o 12 mis ar gyfer hunanladdiadau posibl a thebygol, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn dal yn rhy fuan i ddweud a yw hyn yn gynnydd o arwyddocâd ystadegol. Er hynny, mae, wrth gwrs, yn arwydd o broblem bosibl ac yn un y mae'n rhaid inni ymchwilio iddi a'i monitro'n ofalus.

Rhwng Ionawr a Mai 2020 nodwyd nifer bach tebyg o hunanladdiadau tebygol ymhlith pobl 18-25 oed. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen dadansoddiad pellach gyda gwasanaethau lleol er mwyn sicrhau mwy o hyder yn y marwolaethau tebygol o ganlyniad i hunanladdiad ymhlith y grŵp oedran hwn yn y cyfnod hwn. Mae'r Byrddau Iechyd wedi cadarnhau y byddant yn cymryd rhan yn y dadansoddiad manylach hwn dros yr ychydig fisoedd nesaf ac rwyf wedi gofyn i hyn gael ei wneud.

Mae adolygiad yr Uned Gyflawni wedi rhoi nifer o argymhellion eraill ar gyfer gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys parhau i fonitro'r sefyllfa i bobl ifanc wrth inni fynd drwy gyfnod y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pandemig a gwella'r broses o gasglu data, yn enwedig ar gyfer y marwolaethau annisgwyl hynny o fewn y grŵp oedran 18-25.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, rwyf wedi cyfarwyddo bod y sefyllfa'n parhau i gael ei hadolygu'n fanwl, o leiaf hyd at ddiwedd 2020. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar adeg briodol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services